# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 26 Tachwedd 2015

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru

## Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod - 09.15 - 09.30

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.30)

## 2 Y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) - Sesiwn Dystiolaeth 3

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 17)

Llywodraeth Cymru

Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Emma Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr - Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Mair Roberts, Cyfreithwraig - Llywodraeth Cymru

Sophie Brighouse, Cyfreithwraig - Llywodraeth Cymru

## 3 Papur i'w nodi

(10.30)

**Llythyr at Ysgrifennydd Gwladol Cymru am Fil Cymru drafft**

(Tudalennau 18 - 22)

CYPE(4)-29-15 - Papur i'w nodi 1

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 2 Rhagfyr

## 5 Etifeddiaeth a blaenraglen waith y Pwyllgor

(10.30 - 11.00) (Tudalennau 23 - 47)

CYPE(4)-29-15 – Papur preifat 2

CYPE(4)-29-15 – Papur preifat 3

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Y Gwir Anrh Stephen Crabb AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

19 Tachwedd 2015

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**Bil Cymru drafft**

Trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Fil Cymru drafft yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd. Wrth wneud hynny, ein nod oedd ateb tri chwestiwn yng nghyd-destun cylch gwaith a gwaith y Pwyllgor:

- A yw'r Bil drafft yn glir ac a oes ffyrdd y gellid ei wneud yn gliriach?
- A yw'r Bil drafft yn effeithio ar gymhwysedd presennol y Cynulliad mewn perthynas â phlant, pobl ifanc ac addysg?
- Beth yw goblygiadau'r Bil drafft o ran gallu'r Cynulliad i ddeddfu'n effeithiol yn y dyfodol?

Rydym yn gobeithio y bydd ein hatebion i'r cwestiynau hyn yn eich cynorthwyo i fwrw ymlaen â'r Bil drafft ac y byddwch yn gallu rhoi sicrwydd i ni eich bod yn mynd i'r afael â'n pryderon.

**A yw'r Bil drafft yn glir ac a oes ffyrdd y gellid ei wneud yn gliriach?**

Mae'r Bil drafft yn cynnwys dros 200 o faterion penodol a gedwir yn ôl, cymalau cadw cyffredinol eang eu natur, profion "anghenraid" newydd a gofynion

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

ehangach o ran cydsyniadau. Mae'r cyfuniad o'r profion a'r materion hyn a gedwir yn ôl yn ei gwneud yn anodd i ni asesu'n hyderus effaith y Bil drafft ar y meysydd hynny sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Dylai graddau'r materion penodol a gedwir yn ôl gael eu hesbonio yn y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil drafft.

At hynny, nid yw'n glir pam mae meysydd polisi penodol wedi cael eu cadw gan nad oes unrhyw sail resymegol wedi cael ei darparu. Rydych wedi disgrifio *sut* y cafodd y materion a gedwir yn ôl yn y Bil eu datblygu. Fodd bynnag, dylai'r rhain fod yn seiliedig ar egwyddorion, y gellir eu hegluro'n glir ac yn syml. Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth y DU i egluro *pam* mae materion a gedwir yn ôl wedi cael eu cynnwys yn y Bil drafft.

Byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad ynghylch pam nad yw rhai o argymhellion penodol Silk wedi cael eu cynnwys yn y Bil drafft. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr Ysgrifennydd Gwladol Rhoddodd ymrwymiad yn ei lythyr dyddiedig 3 Medi at y Prif Weinidog i roi ystyriaeth bellach i ddatganoli tâl athrawon ac amodau. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe byddai modd cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn hyn o beth.

**A yw'r Bil drafft yn effeithio ar gymhwysedd presennol y Cynulliad mewn perthynas â phlant, pobl ifanc ac addysg?**

Yn ystod ein trafodaethau, nodwyd materion penodol a gedwir yn ôl yr ymddengys eu bod yn lleihau cymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â phlant, pobl ifanc ac addysg a'r materion sy'n effeithio arnynt. Nid oeddem yn gallu nodi neu ystyried effaith bosibl pob un o'r materion a gedwir yn ôl oherwydd yr amser oedd ar gael.

***Mater a gedwir yn ôl 38 – Atal, canfod ac ymchwilio i droseddau***

Mae'r cymal cadw hwn o bosibl yn eang iawn ac yn lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Gallai fod â goblygiadau sylweddol os bydd y Cynulliad yn dymuno deddfu mewn meysydd sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, er enghraifft. Ni all y Pwyllgor gefnogi'r cynnig hwn.

***Mater a gedwir yn ôl 61 – Elusennau***

Nid yw’n glir a yw’r cymal cadw hwn yn gymwys i gyfraith elusennau neu reoleiddio elusennau. Mae’r Pwyllgor yn nodi bod dadansoddiad Swyddfa Cymru o Ddeddfau a basiwyd yn y pedwerydd Cynulliad yn datgan y bwriedir i’r mater hwn a gedwir yn ôl fod yn berthnasol i gyfraith elusennau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn glir yn y Bil. Gellid dehongli’r mater hwn a gedwir yn ôl yn y fath fodd ag i amharu ar allu’r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas ag ysgolion preifat â statws elusennol yn ogystal â sefydliadau yn y sectorau addysg Uwch a Phellach.

*Mater a gedwir yn ôl 193 – Cyfraith Teulu*

Gwnaeth y Ddeddf Llywodraeth Cymru bresennol ddatganoli’r elfennau canlynol o gyfraith teulu –

(a) Cyngor ar les i’r Llysoedd, cynrychiolaeth a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i blant sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru a’u teuluoedd, a

(b) swyddogion achosion teuluol Cymru.

Nid yw’r elfennau hyn yn cael eu rhestru fel eithriadau yn y Bil drafft. Byddai hyn yn amlwg yn golygu lleihad o ran cymhwysedd y Cynulliad ac ni all y Pwyllgor gefnogi hyn.

Mae cymhwysedd presennol y Cynulliad fel a nodwyd yn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cynnwys "mabwysiadu a maethu". Yn y Bil drafft, mae’r mater a gedwir yn ôl ar gyfraith teulu yn cynnwys eithriad sy’n ymwneud ag "asiantaethau mabwysiadu a’u swyddogaethau". Ymddengys y byddai’r cymhwysedd presennol yn cael ei leihau gan Fil Cymru drafft. Ni all y Pwyllgor gefnogi hyn.

*Mater a gedwir yn ôl 206 – Cyfle Cyfartal*

O dan y setliad presennol gall y Cynulliad ddiwygio deddfwriaeth cydraddoldeb i’r graddau y mae ei ddeddfwriaeth yn ymwneud â Chyfle Cyfartal mewn awdurdodau lleol. Ymddengys fod y mater hwn a gedwir yn ôl yn cael gwared ar y cymhwysedd hwnnw, ac ni all y Pwyllgor gefnogi hyn.

*Cyfyngiad cyffredinol o ran cyfraith trosedd.*

Mae Atodlen 7B i'r Bil drafft yn darparu ar gyfer gwahanol gyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gan gynnwys cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chyfraith trosedd. Mae'r effaith bosibl yn eang a gallai gael effaith sylweddol ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor hwn, er enghraifft, pe byddai'r Cynulliad yn dymuno deddfu mewn perthynas ag amddiffyn plant.

I gloi, rydym yn pryderu y byddai cymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc ac addysg yn cael ei leihau o ganlyniad i'r Bil drafft. Gellid mynd i'r afael â hyn drwy sicrhau bod y materion a gedwir yn ôl a'r eithriadau yn y Bil drafft yn adlewyrchu cymhwysedd presennol y Cynulliad yn llawn ac yn gywir.

**Sut fydd y Bil drafft yn effeithio ar allu'r Cynulliad i ddeddfu'n effeithiol yn y dyfodol?**

Rydym yn pryderu y bydd y materion a gedwir yn ôl, y profion anghenraid a'r cyfyngiadau eraill yn y Bil drafft yn cyfyngu'n ddiangen ar allu'r Cynulliad i ddeddfu'n effeithiol mewn meysydd lle mae ganddo bwerau neu swyddogaethau yn barod. Mae graddau'r materion a gedwir yn ôl yn golygu y bydd canlyniadau nas bwriadwyd a allai gyfyngu'r Cynulliad ymhellach na'r hyn a fwriadwyd neu a ragwelwyd yn wreiddiol.

Hoffem dynnu eich sylw at ddwy enghraifft yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg –

O dan y model newydd, byddai Adran 134 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n dynodi Prif Swyddog yr heddlu fel partner ar fyrddau diogelu, yn ei wneud yn ofynnol cael caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan fod heddluoedd yn awdurdodau a gedwir yn ôl. Mae'n amlwg bod y Ddeddf yn ymwneud â phwrpas datganoledig – byddai lles cymdeithasol, a chreu byrddau diogelu a nodi'r partneriaid perthnasol o fewn cymhwysedd. Fodd bynnag, mae canlyniad y mater hwn a gedwir yn ôl yn golygu na allai'r Cynulliad ddynodi Prif Swyddog yr heddlu yng Nghymru fel partner ar fwrdd diogelu a leolir yng

Nghymru heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r rhesymeg dros y cyfyngiad hwn yn aneglur. Gall fod yn ganlyniad anfwriadol o ddynodi heddluoedd fel awdurdodau a gedwir yn ôl.

Gallai Comisiynydd Plant Cymru fod yn ail enghraifft o faes yr effeithir arno gan y materion eang eu natur a gedwir yn ôl. O dan y setliad presennol byddai'n bosibl i ymestyn y pwerau sydd gan y Comisiynydd mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru, neu sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys pynciau "tawel". Fodd bynnag, gan ystyried rhai o'r materion penodol a gedwir yn ôl a'r cyfyngiadau cyffredinol yn Atodlen 7B, mae'r Bil drafft yn cyfyngu ar botensial y Cynulliad i wneud hyn.

I gloi, mae'r Pwyllgor yn pryderu am y diffyg eglurder yn y Bil drafft. Ymhellach, mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol am y lleihad arfaethedig yng nghymhwysedd y Cynulliad mewn meysydd sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'ch addewid y bydd trafodaeth bellach ar gynnwys y Bil drafft ac yn edrych ymlaen at weld sylw yn cael ei roi i'r materion a amlinellir yn y llythyr hwn.

Yn gywir

Ann Jones

**Ann Jones AC / AM**
Cadeirydd

cc Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon